

Statws rhyddhau: I'W RYDDHAU AR UNWAITH

Gwefan Diogel a Saff Cymru yn Lansio i Gefnogi Rhieni a Gofalwyr Ledled Cymru

Adnodd cenedlaethol newydd i helpu teuluoedd i atal niwed ac adeiladu dyfodol mwy diogel i blant a phobl ifanc

Mae gwefan ddwyieithog newydd, Diogel a Saff Cymru, wedi lansio'n swyddogol i gefnogi rhieni a gofalwyr ledled Cymru i ddeall, atal ac ymateb yn well i faterion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.

Wedi'i ddatblygu gan yr elusen Gymreig Our Voice Our Journey a'i ariannu drwy raglen Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Llywodraeth Cymru, mae'r llwyfan yn cynnig arweiniad hygyrch ac ymarferol ar ystod eang o heriau y gall teuluoedd eu hwynebu, o berthnasoedd afiach a niwed ar-lein, i ecsbloetio rhywiol a lles emosiynol.

Mae'r lansiad yn digwydd ar adeg pan fo llawer o rieni'n gynyddol bryderus am y pwysau a'r risgiau sy'n wynebu plant a phobl ifanc. Canfu ymchwil gan Plan International UK fod 80% o rieni yn y Deyrnas Unedig yn poeni y bydd eu merched yn tyfu i fyny yn teimlo'n anniogel mewn mannau cyhoeddus, tra bo 40% yn credu y bydd merched yn profi'r ofnau hyn yn iau na chenedlaethau blaenorol. Ar yr un pryd, canfu ymchwil gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) fod 75% o rieni'n ofni nad yw eu plant yn gwneud dewisiadau diogel ar-lein.

Mae Diogel a Saff Cymru wedi'i gyd-ddylunio gyda rhieni a gofalwyr, a'i lunio gan fewnwelediadau gan deuluoedd ledled Cymru. Mae'n darparu gwybodaeth glir a chefnogol ochr yn ochr ag offer ymarferol i helpu rhieni i deimlo'n fwy hyderus wrth gael sgysiau, adnabod arwyddion o niwed, a gwybod ble i droi am gymorth.

Yn ei hanfod, mae'r wefan yn cydnabod y gall magu plant fod yn gymhleth a bod cymorth yn hawdd i'w gael, yn ddi-farn, ac wedi'i wreiddio mewn profiadau bywyd go iawn.

Rhannodd Alice, rhiant o Dde Cymru, pa mor bwysig yw'r wefan i rieni:

“Mae Diogel a Saff Cymru yn darparu cyngor clir iawn, cefnogol a di-farn ar restr gynhwysfawr o bethau sy'n effeithio'n fawr ar rieni a gofalwyr a'u plant a'u pobl ifanc.

Mae'r wefan hon yn torri drwy lawer o'r cynnwys gwleidyddol a pholareiddiedig sy'n gallu bod yn hollol lethu ac yn mynd yn syth at y cymorth a'r camau ymarferol y gall

rhieni a gofalwyr eu cymryd. Rwy'n gwybod y byddaf yn sicr yn ymweld â'r wefan eto ac eto yn y dyfodol.”

Mae'r llwyfan yn helpu rhieni sy'n poeni am bryder uniongyrchol i ddysgu mwy am y mater a chael cymorth, yn ogystal â chefnogi'r rhai sydd am atal problemau, gan feithrin ymwybyddiaeth a gwydnwch cyn i faterion godi.

Yn ogystal â chynghor a gwybodaeth, mae'r wefan yn cynnwys cyfeiriad at wasanaethau cymorth cenedlaethol a rhanbarthol ledled Cymru, gan helpu teuluoedd i gael y cymorth cywir ar yr amser cywir.

Cefnogi teuluoedd a chymunedau mwy diogel

Dywedodd Anne-Marie Lawrence, Cyfarwyddwr Rheoli Our Voice Our Journey:

“Crewyd Diogel a Saff Cymru i gefnogi rhieni a gofalwyr yn un o'r rolau pwysicaf sydd ganddynt — helpu plant a phobl ifanc i dyfu i fyny yn ddiogel, yn hyderus ac yn rhydd rhag niwed.

Gwyddom fod llawer o deuluoedd yn wynebu heriau, ac nid yw bob amser yn hawdd gwybod beth i'w wneud na ble i droi. Mae'r wefan hon yn dod â gwybodaeth ddibynadwy, cyngor ymarferol a llwybrau clir at gymorth at ei gilydd, fel na fydd unrhyw riant yn teimlo ar ei ben ei hun wrth lywio'r materion hyn.

Drwy roi gwybodaeth a hyder i deuluoedd, gallwn weithio gyda'n gilydd i atal niwed ac adeiladu cymunedau mwy diogel ac iach ledled Cymru.”

Dull ataliol a chefnogol

Mae'r wefan yn mabwysiadu dull ataliol, gan helpu rhieni i feithrin dealltwriaeth cyn i faterion waethygu, tra hefyd yn cynnig arweiniad i'r rhai sy'n delio â phryderon eisoes. Mae'r pynciau a gwmpesir yn cynnwys:

Agweddau ac ymddygiadau niweidiol

Trais teuluol

Diogelwch ar-lein

Perthnasoedd a dêtio

Cefnogi pobl ifanc ag anghenion cymhleth

Drwy ei ffocws ar helpu teuluoedd i fyfrio, cysylltu, parchu a gwella, mae Diogel a Saff Cymru yn anelu at gefnogi perthnasoedd cryfach ac amgylcheddau mwy diogel i blant a phobl ifanc.

Ar gael nawr

Mae Diogel a Saff Cymru ar gael nawr i bob rhiant a gofalwr ledled Cymru. Ewch i www.safeandsound.wales

DIWEDD

Rhagor o wybodaeth:

Ar gyfer ymholiadau'r cyfryngau, cysylltwch â:

Anne-Marie Lawrence, Cyfarwyddwr Rheoli

Our Voice Our Journey

hello@ourvoiceourjourney.org.uk



Safe & Sound Wales
Diogel a Saff Cymru



CYMRAEG